**CYPE(6)-01-22 - Papur i'w nodi 6**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**–**

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
**–**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

Dyddiad: 17 Rhagfyr 2021

Pwnc: Iechyd meddwl amenedigol

Annwyl Lynne,

Fel y gwyddoch, mae iechyd meddwl yn parhau i fod yn un o brif achosion marwolaeth mamau yn ystod beichiogrwydd a'r flwyddyn gyntaf ar ôl genedigaeth. Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar famau newydd a mamau beichiog, gyda rhieni'n wynebu pwysau digynsail, a lefelau uwch o bryderon, straen a theimlo'n ynysig.

Mae iechyd meddwl amenedigol yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor. Gwnaethom groeawu'n fawr y diweddariad gennych ym mis Tachwedd ar y gwasanaeth cleifion mewnol iechyd meddwl amenedigol arbenigol. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael diweddariadau bob chwe mis ar y canlynol:

- y gwasanaeth hwn ac, yn ehangach, sut mae Llywodraeth Cymru yn gwella ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol a mynediad atynt; a'r
- cynnydd o ran gweithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg blaenorol ar iechyd meddwl amenedigol i sicrhau bod pob menyw a'u teuluoedd yng Nghymru yn cael gofal a chymorth cyson, hygyrch, o ansawdd ar gyfer eu hiechyd meddwl yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl yr enedigaeth.

Rydym yn edrych ymlaen at y diweddariad cyntaf yn y flwyddyn newydd.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.